**Prifysgol Abertawe**

Amodau a thelerau Ysgoloriaeth Noddfa

# Amodau a thelerau Ysgoloriaeth Noddfa Prifysgol Abertawe 2024-25

Cynnwys


1 Cwmpas ..... 2

2 Meini prawf cymhwysedd a diffiniadau ..... 2

3 Ceisiadau ..... 3

4 Detholiad ..... 3

5 Cymorth Ariannol Ychwanegol ..... 4

6 Taliadau ..... 4

7 Newidiadau i astudiaethau ..... 4

8 Gwahardd myfyrwyr rhag astudio ..... 5

9 Tynnu'n ôl o astudiaethau ..... 5

10 Ailadrodd, estyn neu ohirio eich astudiaethau ..... 5

11 Newidiadau i'ch statws mewnfudo ..... 5

12 Camau disgyblu a cheisiadau twyllodrus ..... 6

13 Apeliadau ..... 6

14 Defnyddio data ..... 6

# 1 Cwmpas

1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu amodau a thelerau llawn y cynllun hwn a dylech chi eu darllen cyn cwblhau a chyflwyno cais.

1.1 Mae'r amodau a thelerau hyn yn berthnasol i fyfyrwyr Meistr Ôl-raddedig a Addysgir (PGT) sy'n dymuno dechrau astudio yn 2024. Rhaid bod ymgeiswyr yn ddeiliaid y mathau canlynol o statws:

- Ceisiwr lloches neu blentyn ceisiwr lloches (sef unigolyn sydd wedi hawlio statws ffoadur yn y DU) neu,
- feddu ar Ganiatâd i Aros cyfyngedig yn y DU neu ar sail disgresiwn, neu
- Ddiogelu Dyngarol* *(ond nad ydynt yn bodloni gofynion preswylio i sicrhau meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth ariannol statudol gan Lywodraeth Cymru).

1.2 Rhaid i ymgeiswyr fyw yn Abertawe (bydd angen côd post i dystio i hyn). Sylwer, os bydd yr ymgeisydd yn symud/yn cael ei symud o ardal Abertawe ar ôl dechrau astudio, bydd yr Ysgoloriaeth yn dal i fod mewn grym cyhyd ag y gall y myfyriwr deithio i'r Brifysgol ac oddi yno gan ddefnyddio'r tocyn bws a ddarperir.

1.3 Proses gystadleuol yw dyrannu'r fwrsariaeth hon, ac felly ni fydd pob cais a dderbynnir yn llwyddiannus. Un ysgoloriaeth ôl-raddedig a addysgir sydd ar gael a fydd yn cynnwys:

- Bwrsariaeth Ffïoedd Dysgu ar gyfer pob blwyddyn astudio (Myfyrwyr wedi'u dosbarthu fel Rhyngwladol – gweler adran 3.1; hefyd
- Mae grant ar gael i helpu tuag at gostau byw ac astudio a'r uchafswm yw £12,000 ar gyfer hyd y cwrs, a delir fel ariantal rheolaidd.

# 2 Meini prawf cymhwysedd a diffiniadau

| | |
|---|---|
| **Rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir Cymwys** | Rhaglen Ôl-raddedig a Addysgir cymwys yw rhaglen amser llawn neu ran-amser (ar wahân i'r rhai a restrwyd isod) sy'n arwain at gymhwyster MSc / MA/ LLM, gydag uchafswm o flwyddyn i raglen amser llawn neu dair blynedd i raglen ran-amser.<br>Rhaid astudio rhaglenni rhan-amser ar ddwysedd o 33% neu fwy (e.e. gellir cymryd hyd at ddwy flynedd neu dair blynedd i gwblhau cwrs ar sail ran-amser y byddai'n cymryd blwyddyn i'w gwblhau yn amser llawn). |
| **Rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir sydd Wedi'u Heithrio** | NID yw'r rhaglenni canlynol yn gymwys am yr Ysgoloriaeth Noddfa: Rhaglenni Tystysgrif Ôl-raddedig, Diploma, Ymarfer y Gyfraith (LPC) , Ôl-raddedig a Addysgir sy'n cael eu hastudio dros gyfnod sy'n fwy na 33% y cwrs amser llawn cyfatebol, rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir sydd wedi'u rhyddfreinio ac sy'n cael eu hastudio o bell, pob rhaglen gradd Meistr a noddir gan y GIG, gan gynnwys Nyrsio, Gwyddor Gofal Iechyd a Meddygaeth. Nid yw cyrsiau sy'n cynnwys teithio dramor a/neu leoliadau gwaith yn |

| | |
|---|---|
| **Cyflwyno Cais i astudio** | Rhaid eich bod chi wedi gwneud cais ac wedi derbyn cynnig i astudio rhaglen gymwys yn Abertawe cyn i chi allu gwneud cais am Ysgoloriaeth Noddfa Prifysgol Abertawe.<br>Bydd gofynion iaith Saesneg yn berthnasol: https://www.swansea.ac.uk/admissions/english-language-requirements/. |

| | |
|---|---|
| **Statws Mewnfudo** | Gall un o'r mathau canlynol o statws mewnfudo fod yn gymwys os ydych chi'n ddibynnydd rhywun arall â'r statws hwn:<br>• Ceisiwr Lloches y Deyrnas Unedig<br>• Caniatâd i aros cyfyngedig yn y DU /yn ôl disgresiwn (o ganlyniad i gais am Loches)*<br>• Diogelu Dyngarol*<br>*ond nid ydych chi'n bodloni'r gofynion preswylio ac felly'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cyllid i fyfyrwyr Cymru<br><br>Rhaid bod gennych chi'r statws hwn cyn gwneud cais i astudio ym Mhrifysgol Abertawe. Rhaid cadarnhau a dilysu statws mewnfudo cyn gwneud cais er mwyn i'r cais gael ei ystyried yn un cymwys, a bydd yn rhaid i ddeiliaid llwyddiannus y dyfarniad ailgadarnhau'r statws cyn cofrestru. Dyletswydd deiliad y dyfarniad llwyddiannus fydd dweud wrthym ni am newid i statws mewnfudo (a bydd peidio â gwneud hynny'n arwain at dynnu'r dyfarniad/cais yn ôl). |
| **Cyrsiau/ffyrdd o astudio annilys** | • Cyrsiau a noddir gan y GIG.<br>• Cyrsiau sy'n cynnwys teithio a/neu astudio dramor.<br>• Cyrsiau sy'n cynnwys lleoliadau gwaith a/neu deithio dramor.<br>• Cyrsiau dysgu o bell.<br>• Meddygaeth i Raddedigion (wedi'i ariannu'n rhannol gan y GIG). |

| | |
|---|---|
| **Benthyciadau myfyrwyr Ôl-raddedig a** | Os ydych chi'n gymwys i gyrchu benthyciadau Ôl-raddedig a Addysgir gan Lywodraeth y DU, ni allwch chi wneud cais am y cynllun hwn. |

## 3 Ceisiadau

3.1 I fod yn gymwys i gael eich ystyried am un o'r bwrsariaethau, mae angen i chi:

- Fodloni'r meini prawf cymhwysedd mewn perthynas â'ch statws mewnfudo
- Bod wedi gwneud cais ac wedi derbyn cynnig i astudio ar raglen gymwys (gweler uchod)
- Bod yn anghymwys i wneud cais ar gyfer cyllid statudol i fyfyrwyr gan Lywodraeth y DU, a benthyciadau myfyrwyr y DU yn benodol
- Bod wedi cyflwyno cais am Ysgoloriaeth Noddfa erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd
- Bodloni holl amodau'r cynnig academaidd i allu dechrau eich astudiaethau.
- Rydych chi'n gallu talu eich treuliau byw, teithio ac astudio o'r ariantal a ddyrannwyd neu rydych chi'n gallu ychwanegu at yr ariantal i dalu eich costau byw.
- Rydych chi'n gallu sicrhau llety priodol sydd o fewn pellter teithio addas o'r Brifysgol neu'n gallu cymudo o'ch lleoliad presennol.
- Rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny nad oes ganddynt gymhwyster ar lefel gyfwerth ar hyn o bryd.
- Roedd gennych chi statws Ceisiwr Lloches cyn cyflwyno cais am yr ysgoloriaeth.
- Ni fydd arian ychwanegol ar gael i dalu am gyfnodau estyniad, gohirio, ailgyflwyno neu amgylchiadau eraill.
- Dyddiadau talu'r ariantal i'w cadarnhau.
- Cyfrif banc yn y DU

3.1.a. Drwy wneud cais am yr ysgoloriaeth, rydych chi'n cydnabod ymwybyddiaeth o'r amodau canlynol a'ch bod yn cytuno â nhw:

- 'Cystadleuaeth' agored yw Dyfarniad yr Ysgoloriaeth
- Os dyfernir Ysgoloriaeth Noddfa i chi ond nid ydych yn bodloni'r holl amodau academaidd i allu dechrau ar eich cwrs, nid oes modd gohirio eich cynnig Ysgoloriaeth am flwyddyn arall.
- Os nad ydych chi'n bodloni'r holl amodau academaidd ond caniateir i chi ohirio dyddiad dechrau eich cwrs i fodloni'r amodau hynny, bydd yn rhaid i chi gyflwyno cais am Ysgoloriaeth Noddfa newydd.
- Os byddwch chi'n bodloni amodau academaidd eich cwrs, ond ni ddyfernir ysgoloriaeth i chi, mae hi dal yn bosib i chi ddechrau eich astudiaethau drwy hunan-ariannu. Gofynnir i chi gwblhau ffurflen asesu Ffïoedd Dysgu a gallai fod/bydd cyfraddau Ffïoedd Dysgu Rhyngwladol yn berthnasol.
- Rydych chi'n gallu talu eich treuliau byw, teithio ac astudio o'r ariantal a ddyrannwyd neu rydych chi'n gallu ychwanegu at yr ariantal i dalu eich costau byw.
- Rydych chi'n gallu sicrhau llety priodol sydd o fewn pellter teithio addas o'r Brifysgol neu'n gallu cymudo o'ch lleoliad presennol.
- Rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny nad oes ganddynt gymhwyster ar lefel gyfwerth ar hyn o bryd.
- Roedd gennych chi statws Ceisiwr Lloches cyn cyflwyno cais am yr ysgoloriaeth.
- Ni fydd arian ychwanegol ar gael i dalu am gyfnodau estyniad, gohirio, ailgyflwyno neu amgylchiadau eraill.
- Dyddiadau talu'r ariantal i'w cadarnhau.
- Cyfrif banc yn y DU

3.2 Cyfrifoldeb y Brifysgol yw nodi derbynyddion posib y dyfarniad ar sail gwybodaeth a ddarperir yn eich ceisiadau am ysgoloriaeth ac astudio. Ni all y Brifysgol fod yn gyfrifol am unrhyw wallau neu hepgoriadau yn yr wybodaeth a roddir iddi ac ar y cymhwysedd y gweir penderfyniadau yn seiliedig arno. Mae
penderfyniad y Brifysgol ar sut i ddehongli meini prawf cymhwysedd yn derfynol ac nid oes hawl i apelio.

Rhaid i chi gydymffurfio â'r holl geisiadau am wybodaeth ychwanegol i gadarnhau eich cymhwysedd yn

unol â'r terfynau amser a nodwyd a rhaid cyflwyno tystiolaeth erbyn y dyddiadau cau.

Pan wneir penderfyniad ar gymhwysedd ymgeisydd i wneud cais am yr Ysgoloriaeth (Cam 1), rhoddir cyfle i apelio yn erbyn y penderfyniad i ymgeiswyr aflwyddiannus. Rhaid gwneud apeliadau Cam 1 o fewn 3 diwrnod gwaith o dderbyn hysbysiad drwy e-bost gan yr ymgeisydd, a rhaid bod ymgeiswyr yn gallu cynnig tystiolaeth ategol berthnasol fel rhan o'r broses apeliadau (lle bo'n berthnasol). Bydd peidio â darparu tystiolaeth ategol berthnasol a/neu apelio'n ysgrifenedig o fewn y cyfnod amser o 3 diwrnod gwaith yn arwain at wrthod yr apêl. Ni chaiff apeliadau sy'n cyrraedd wedi'r cyfnod o 3 diwrnod gwaith eu derbyn.

3.3 Dylech chi gwblhau'r ffurflen gais Ysgoloriaeth Noddfa berthnasol a fydd ar gael ar y wefan.

- Cewch eich hysbysu drwy e-bost os bydd eich cais yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd pan fydd ceisiadau'n agor ar gyfer cyflwyniadau, a dim ond os byddwch chi wedi derbyn cynnig i astudio ar raglen Ôl-raddedig a Addysgir gymwys.
- Os yw rhaglen Meistr Ôl-raddedig a Addysgir y mae gennych gynnig ar ei chyfer yn un o'r rhaglenni 'anghymwys' a restrir uchod, ni fydd eich cais yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a chewch eich hysbysu am hyn.
- Ni chaiff ceisiadau anghyflawn eu hystyried.

3.4 Y dyddiad cais ar gyfer cyflwyno ceisiadau am Ysgoloriaeth Noddfa fydd 4pm ddydd Iau 6ain Mehefin 2024. Rydym yn cadw'r hawl i estyn y dyddiad hwn er mwyn gallu dyrannu'r ysgoloriaethau cyn dechrau blwyddyn academaidd 2024.

3.5 Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r HOLL feini prawf cymhwysedd llym hyn a bod mewn sefyllfa i ddilysu amgylchiadau er mwyn gallu cyflwyno cais. Ni chaiff ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf eu hystyried am ysgoloriaeth.

3.6 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i adolygu dyddiadau cau'r cais i sicrhau y bodlonir dyraniad y dyfarniadau'n llawn lle bo modd.

## 4 Dethol

4.1 Bydd dethol yn seiliedig ar eich datganiad cefnogi a gyflwynwyd yn eich cais am ysgoloriaeth a gwybodaeth gefndirol arall, *eich geirdaon yn benodol*, a ddarparwyd yn eich cais i astudio ym Mhrifysgol Abertawe.

4.2 Bydd panel dethol yn cwrdd i ystyried yr holl geisiadau cymwys a dyrannu'r gronfa hon. Yn gyffredinol, bydd hyn yn cynnwys cynrychiolydd o Uwch-dîm Rheoli'r Brifysgol, aelod o dîm y staff academaidd, cynrychiolydd o'r gymuned ceiswyr lloches leol a/neu aelod o grŵp neu asiantaeth cefnogi ceiswyr lloches leol, aelod etholedig o Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolydd o dîm gwasanaethau proffesiynol y Brifysgol.

4.3 Ni fydd modd eich ystyried am ddyfarniad os na fyddwch chi wedi cyflwyno cais am ysgoloriaeth wedi'i gwblhau ynghyd â thystiolaeth ategol berthnasol erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Mae pob dyfarniad ar sail disgresiwn a nifer gyfyngedig ohonynt sydd ar gael, felly hyd yn oed os byddwch chi'n bodloni'r holl feini prawf, ni ellir gwarantu y byddwch yn derbyn un ohonynt.

## 5 Cymorth Ariannol Ychwanegol

5.1 Bydd y cynllun cyllid hwn ar agor i chi dim ond os **na** fyddwch yn gymwys am gyllid gan Lywodraeth y DU, megis benthyciadau Ôl-raddedig a Addysgir neu nawdd sylweddol arall tuag at eich ffïoedd a'ch costau byw. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i amrywio'r polisi hwn mewn amgylchiadau unigol penodol, lle gallai'r cyllid ychwanegol a dderbynnir fod yn gyfyngedig. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i beidio â dyrannu bwrsariaeth ffïoedd neu fwrsariaeth astudio, neu ei thynnu'n ôl neu geisio ad-daliad, os dyrannwyd bwrsariaeth neu becyn nawdd i chi eisoes neu, os yn hwyrach, y gwneir hynny, a/neu os na fyddwch yn datgelu newid sylweddol yn eich statws mewnfudo sy'n rhoi hawl i chi gyrchu cyllid myfyrwyr statudol.

## 6 Darparu'r dyfarniad

6.1 Swyddfa Gyllid ac cyfranogiade@BywydCampws y Brifysgolfydd yn darparu'r dyfarniadau. Sylwer y caiff elfen ffi ddysgu'r dyfarniad ei throsglwyddo i dîm incwm y Brifysgol ar y dyddiad perthnasol dim ond os byddwch chi wedi cofrestru'n llawn fel myfyriwr yn Abertawe ac wedi cwblhau a dychwelyd ffurflen cytundeb ysgoloriaeth y mae'n rhaid ei dychwelyd **yn bersonol** i swyddfa cyfranogiade@BywydCampws. Caiff y ffurflen hon ei e-bostio atoch os byddwch chi'n llwyddiannus yn eich cais.

*Sylwer y bydd yn rhaid i chi gwrdd â chynghorwr cyn cofrestru ar eich gradd (a dyrannu'r ysgoloriaeth) a fydd yn: cadarnhau eich statws mewnfudo ar adeg cofrestru; sicrhau eich bod chi wedi darllen amodau a thelerau'r fwrsariaeth yn llawn, a'ch bod yn cytuno iddynt.*

6.2 Byddwn yn cysylltu â chi ynghylch amserlen darparu'r tocyn bws, cerdyn prydau bwyd ac offer astudio. Os ydych chi neu'ch teulu'n derbyn cymorth lloches a ddarperir gan Swyddfa Gartref y DU, gallai'r gost gynhaliaeth effeithio ar eich cymhwysedd i'r taliadau hyn. Eich cyfrifoldeb chi yw cael cyngor annibynnol gan sefydliad i ffoaduriaid ar yr effaith y gallai'r fwrsariaeth ei chael ar fynediad eich teulu at gymorth ariannol gan Swyddfa Gartref y DU.

6.3 Os ydych chi'n ymgymryd â rhaglen Meistr Ôl-raddedig a Addysgir amser llawn sy'n cynnwys cyfnod hwy o ysgrifennu'r traethawd, bydd tocyn bws a cherdyn ciniawa ar gael drwy gydol eich astudiaethau.

6.4 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu ysgoloriaethau'n ôl a pheidio â'u dyfarnu ar unrhyw adeg cyn eu dyrannu.

6.5 Ni chaiff unrhyw daliadau amgen eu cynnig ac nid oes modd trosglwyddo'r ysgoloriaeth i gyrsiau eraill ym Mhrifysgol Abertawe nac i dderbynnydd enwebedig arall.

## 7 Newidiadau i astudiaethau

7.1 Os ydych chi'n newid i raglen neu ddull astudio nad yw'n gymwys, mae'n bosib y caiff eich Ysgoloriaeth Noddfa ei thynnu'n ôl. Os byddwch chi'n gwneud unrhyw newidiadau i'ch rhaglen astudio wreiddiol, rhaid i chi hysbysu'r Tîm cyfranogiade@BywydCampws am hyn drwy e-bostio SanctuaryScholarship@abertawe.ac.uk, gan y gallai effeithio ar eich cymhwysedd parhaus.

## 8 Gwahardd myfyrwyr rhag astudio

8.1 Os byddwch chi'n gohirio eich astudiaethau, ni fyddwch yn gymwys i dderbyn unrhyw ddyfarniadau hwyrach yn y flwyddyn honno.

8.2 Fodd bynnag, efallai y byddwch chi'n gymwys i dderbyn dyfarniadau sydd ar y gweill ac sy'n ddyledus wrth ddychwelyd i'ch astudiaethau, yn dilyn cyfnod o ohirio.

## 9 Tynnu'n ôl o Astudiaethau

9.1 Bydd myfyriwr sy'n dymuno rhoi'r gorau i astudio ei gwrs yn cael ei dynnu'n ôl o'r cwrs hwnnw a chaiff yr Ysgoloriaeth Noddfa ei thynnu'n ôl.

9.2 Ni fydd yn rhaid i fyfyriwr sy'n tynnu'n ôl ad-dalu unrhyw daliad dyfarniad yr Ysgoloriaeth Noddfa, cyhyd ag yr oedd yn bresennol ar y dyddiad yr oedd talu'r taliad/ffi ddysgu yn ddyledus.

9.3 Ni fydd myfyriwr sy'n tynnu'n ôl yn derbyn unrhyw daliadau/darpariaeth y dyfarniad pellach, ond ni ofynnir i chi ad-dalu unrhyw randaliadau/ddarpariaeth flaenorol. Bydd disgwyl i fyfyrwyr ddychwelyd offer (gliniadur), cerdyn ciniawa a thocyn bws.

9.4 Bydd dyfarniad ffi ddysgu myfyriwr sy'n tynnu'n ôl yn cael ei addasu i fodloni atebolrwydd y ffi ddysgu yn ystod y flwyddyn tynnu'n ôl.

## 10 Ailadrodd, estyn neu ohirio eich astudiaethau

10.1 Yn unol â darpariaeth y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, ni roddir dyfarniadau Ysgoloriaeth yn ystod cyfnod(au) ailadrodd/estyniadau ar raglen ôl-raddedig a addysgir. Gweler adran 8 hefyd.

10.2 Yn unol â darpariaeth y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, ni fydd deiliaid yr Ysgoloriaeth yn gymwys am ysgoloriaeth ffïoedd addysgu '+1'/'blwyddyn anrheg', darpariaeth tocyn bws neu ddarpariaeth cerdyn ciniawa.

10.3 Mae cyllid ysgoloriaeth dim ond hyd at werth dyfarniad yr atebolrwydd ffïoedd addysgu ar ddechrau'r rhaglen. Bydd myfyrwyr sy'n trosglwyddo i ddull gwahanol o astudio (e.e. amser llawn i ran-amser) yn derbyn yr ysgoloriaeth ffïoedd dysgu a'r ddarpariaeth ysgoloriaeth sy'n gysylltiedig â'u dull newydd o astudio (gweler pwynt 1.2)

10.4 Dyfernir dyfarniadau am hyd y cwrs yn unig. Os byddwch chi'n gohirio neu'n tynnu'n ôl ac yn ailddechrau, bydd unrhyw ddyfarniad a gynigir yn ddi-rym. Os byddwch chi'n gymwys, byddwch yn gymwys i wneud cais am ysgoloriaeth yn y dyfodol, ond bydd hyn yn destun telerau'r dyfarniad mewn grym yr adeg honno.

## 11 Newidiadau i'ch statws mewnfudo

11.1 Os bydd eich statws mewnfudo yn newid, mae'n RHAID i chi hysbysu'r tîm Cyfranogiade@BywydCampws ar unwaith. Efallai y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'ch newid statws.

11.2 Os bydd eich newid mewn statws mewnfudo yn golygu y byddwch chi'n gymwys am gyllid Ôl-raddedig a Addysgir yn y DU, caiff unrhyw ddyfarniad ysgoloriaeth ei gyfrifo ar sail pro rata a bydd yn daladwy tan yr adeg honno'n unig. Bydd disgwyl i chi wneud cais am gyllid perthnasol gan Lywodraeth y DU am gyfnodau astudio yn y dyfodol, a thalu unrhyw falans/ddyled sy'n daladwy o ddyddiad y newidiodd eich statws mewnfudo ac nid oedd dyfarniad yr ysgoloriaeth yn daladwy mwyach. Pan fydd cymorth ariannol i fyfyrwyr Llywodraeth y DU wedi'i ddyfarnu, bydd dyfarniad Ysgoloriaeth Noddfa'n cael ei ohirio.

11.3 Os byddwch chi'n derbyn hysbysiad eich bod chi wedi'ch cadw gan Swyddfa Gartref y DU, caiff eich dyfarniad ei ohirio am hyd eich cadw. Bydd y Brifysgol yn adolygu'r cymorth sydd ar gael i'ch helpu i ailddechrau eich astudiaethau os bydd eich statws yn eich galluogi chi i barhau.

11.4 Os ar unrhyw adeg yn ystod y broses gwneud cais neu ar ôl i chi ddechrau eich astudiaethau cawn ein hysbysu gan y Swyddfa Gartref na ddylech chi fod yn astudio yn y Brifysgol, ni fyddwch yn gymwys am y dyfarniad mwyach. Byddwn yn ystyried eich bod chi wedi tynnu'n ôl a disgwylir i chi adael eich astudiaethau ar unwaith.

## 12 Camau disgyblu a cheisiadau twyllodrus

12.1 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i derfynu dyfarniad eich ysgoloriaeth a gofyn i chi ad-dalu'r symiau (yr ysgoloriaeth ffïoedd) a dalwyd eisoes yn ogystal â dychwelyd offer, tocyn bws a cherdyn ciniawa os cymerir camau disgyblu mewn perthynas â deiliad dyfarniad. Caiff achosion eu hystyried fesul achos gan aelod o'r Uwch-dîm Rheoli.

12.2 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu dyfarniad yn ôl oddi wrth unrhyw un y canfyddir ei fod wedi darparu gwybodaeth anghywir am unrhyw agwedd ar ei gymhwysedd i ddyfarniad yr Ysgoloriaeth Noddfa.

Mewn achosion o'r fath, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn i chi ad-dalu unrhyw ddyfarniad a wnaed eisoes. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd y Brifysgol yn ceisio ad-ennill arian a dalwyd fel dyled (ac yn yr achos hwnnw, efallai y bydd y Brifysgol hefyd yn ceisio ad-ennill symiau ychwanegol megis llog a gronnwyd ar y ddyled, ffïoedd llysoedd sirol a chostau cyfreithiol os yn berthnasol).

Ar unrhyw adeg, efallai y byddwn ni'n gofyn am dystiolaeth o wybodaeth a ddarparwyd yn eich cais at ddibenion dilysu ac archwilio.

## 13 Apeliadau

13.1 Nid oes hawl apelio ac mae penderfyniad y Brifysgol yn derfynol mewn perthynas â'ch cymhwysedd am ddyfarniad.

Gallwch wneud cwyn os ydych chi'n meddwl nad ydych chi wedi'ch ystyried am ddyfarniad o ganlyniad i wall weithdrefnol, neu os byddwch chi'n credu y cafwyd rhyw broblem weithdrefnol arall gyda'n system dyrannu a dyfarnu. Dylid gwneud cwynion yn unol â thelerau ein Gweithdrefn Cwynion Derbyn: https://www.swansea.ac.uk/media/complaints-and-appeals-policy-for-applicants-2020.pdf.

## 14 Defnyddio data

14.1 Dylai myfyrwyr ar raglenni cydweithredol fod yn ymwybodol efallai y bydd yn rhaid rhannu data personol myfyrwyr, gan gynnwys data sensitif, gyda sefydliadau partner er mwyn hwyluso cyflawniad y rhaglenni hyn. Mae pob sefydliad partner yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018, gan gynnwys sicrhau bod y data sy'n cael ei rannu yn berthnasol i ofynion cofrestru ac y caiff ei rannu a'i storio'r ddiogel.

14.2 Gall y Brifysgol ddefnyddio'r data/gwybodaeth rydych chi'n eu rhannu â ni i ddarparu gwybodaeth a chyngor am y Brifysgol i chi fel ymgeisydd. Os byddwch chi'n ymuno â'r Brifysgol ar ôl hynny, efallai y bydd y Brifysgol hefyd yn defnyddio'r data i lywio ein strategaethau ar gyfer eich cefnogi chi fel myfyriwr newydd, i'ch hysbysu am ddarpariaeth y gallech chi fod yn ei chyrchu, i fonitro llwyddiant myfyrwyr ac at ddibenion dilys eraill.